Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Thomas Ellis
# Ysgol Y Parch
# Thomas Ellis
# Caergybi
# LL65 2AP

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Thomas Ellis, Caergybi, yn awdurdod lleol Ynys Môn yw Cylch Meithrin Thomas Ellis.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 22 o blant ym mhob sesiwn ac fe gaiff plant eu derbyn yn ddwy a hanner oed. Mae 12 o blant pedair oed ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae pump o'r rhain yn cael eu hariannu ar gyfer addysg ran-amser.

Mae bron pob un o'r plant yn siarad Saesneg gartref. Nid oes unrhyw blentyn o gartref Cymraeg. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Caiff y cylch chwarae ei redeg gan bedwar aelod o staff amser llawn ac un aelod o staff rhan-amser. Mae pob un o'r staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas mewn gweithio gyda phlant ifanc. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd er Medi 2013.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Chwefror 2014 a chan Estyn yn Chwefror 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'n hyrwyddo medrau gwrando, darllen ac ysgrifennu cynnar a rhifedd plant yn dda
- Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd dysgu plant trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol
- Mae ymarferwyr wedi sefydlu arferion cryf sy'n helpu plant i deimlo'n ddiogel a saff
- Mae'r lleoliad yn hyrwyddo byw yn iach yn dda
- Caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu bod yn annibynnol a chymryd cyfrifoldeb
- Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn yr un cyfle i fanteisio ar holl feysydd darpariaeth y lleoliad

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd a'r unigolyn cofrestredig yn rhannu ymrwymiad i ddarparu profiadau gwerth chweil mewn amgylchedd meithringar ar gyfer y plant
- Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn dda ac yn sicrhau bod sesiynau'n cael eu cynnal yn esmwyth
- Mae ymarferwyr wedi ymrwymo i welliant parhaus
- Mae gan y lleoliad ystod werth chweil o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant
- Mae ymarferwyr yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fynychu hyfforddiant ac yn defnyddio gwybodaeth yn dda i wella'u harfer

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau siarad plant yn fwy systematig

A2 Gwella medrau Cymraeg ymarferwyr

A3 Defnyddio asesu yn fwy effeithiol i nodi'r hyn y mae angen i blant ei wneud nesaf

A4 Edrych ar weithdrefnau ar gyfer cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod eu cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd

A5 Cynnwys pob ymarferwr mewn arfarnu gwaith y lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, eu safonau o ran datblygu eu medrau a'r iaith Gymraeg. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i allu adrodd heb adnabod plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar les plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i allu adrodd heb adnabod plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae arweinydd y lleoliad yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r cynllunio hwn yn sicrhau bod plant yn cael llawer o gyfleoedd gwerth chweil i atgyfnerthu ac ymestyn eu dysgu bob wythnos. Mae pob ymarferwr yn cyfrannu at gynllunio thematig hirdymor, gan rannu syniadau ac awgrymiadau am weithgareddau. O ganlyniad, maent yn darparu gweithgareddau sy'n hwyl a chymhellol.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o ymweliadau yn yr ardal leol i wella profiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae ymweliad diweddar â'r orsaf dân wedi cynyddu dealltwriaeth plant o bobl sy'n eu helpu yn y gymuned.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo medrau gwrando a darllen ac ysgrifennu cynnar plant yn dda. Mae ymarferwyr yn defnyddio caneuon a chyfarwyddiadau ar ffurf cân yn effeithiol i atgyfnerthu arferion y lleoliad a hyrwyddo medrau gwrando. Maent yn gwneud yn siŵr bod plant yn ymarfer creu marciau yn rheolaidd ac yn eu hannog i ysgrifennu ac adnabod eu henwau eu hunain. Mae'r gornel lyfrau yn ddeniadol gyda chyflenwad da o lyfrau, ac mae ymarferwyr yn eu newid yn aml i gynnal diddordeb y plant. Mae plant yn clywed storïau yn rheolaidd ac fe gânt gyfleoedd da i ddysgu caneuon a rhigymau. Er enghraifft, mae plant yn dysgu cân newydd ar gyfer pob thema hanner tymor. Fodd bynnag, mae'r lleoliad yn llai llwyddiannus yn hyrwyddo medrau plant mewn siarad Cymraeg. Nid yw bob amser yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu medrau siarad yn Gymraeg yn systematig.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddidoli a pharu gwrthrychau yn yr hambwrdd tywod. Caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl. Er enghraifft, maent yn pendroni ynghylch sut i baru cocos gyda'i gilydd ac yn arbrofi â chiwbiau rhew o faint gwahanol.

Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am eu treftadaeth Gymreig wrth iddynt ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn dysgu am ddathliadau mewn diwylliannau eraill yn briodol hefyd, fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan bob ymarferwr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad y plentyn ac maent yn deall arfer yn y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, gan ddefnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn dda i annog plant i rannu a chymryd eu tro. Maent wedi sefydlu rheolau ac arferion defnyddiol, ac o ganlyniad, mae plant yn teimlo'n ddiogel a saff.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysgogol a heriol dan do a'r tu allan sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad y plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud digon o ddefnydd o gyfleusterau awyr agored i ymestyn dysgu'r plant. Mae pob ymarferwr yn gweithio mewn modd adeiladol ochr yn ochr â'r plant. Maent yn datblygu eu medrau holi yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r holl ymarferwyr yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson â'r plant, ac o bryd i'w gilydd, maent yn defnyddio patrymau iaith anghywir. O ganlyniad, nid yw plant yn datblygu eu medrau siarad yn Gymraeg cystal ag y gallent.

Mae ymarferwyr yn cymryd cyfrifoldeb am grwpiau o blant unigol ac yn cofnodi arsylwadau am eu cynnydd yn rheolaidd. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn datblygu darlun defnyddiol o gryfderau plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon da yr hyn y mae angen i blant unigol ei ddatblygu nesaf. O bryd i'w gilydd, nid oes gan ymarferwyr ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y mae plant yn gallu ei wneud, ac o ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau'n heriol.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn trwy gyfarfodydd anffurfiol a llyfr cofnod o gyflawniad sy'n gynhwysfawr a deniadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo byw yn iach yn dda. Caiff plant lawer o gyfleoedd i ddysgu am gadw'n iach, trwy fwyta'n dda a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn meithrin medrau corfforol plant yn effeithiol trwy sesiynau ymarfer corff i gerddoriaeth bob wythnos.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau bod amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol lle caiff plant eu hannog i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu bod yn annibynnol a chymryd cyfrifoldeb. Er enghraifft, maent yn annog plant i roi gwastraff bwyd yn y bin a llwyau yn y sinc ar ddiwedd amser byrbryd. Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu synnwyr o syfrdan a rhyfeddod, er enghraifft dod o hyd i drychfilod bach yn eu hardal yn yr awyr agored. Mae'r lleoliad yn dechrau datblygu dealltwriaeth plant o ddatblygu cynaliadwy yn briodol.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfle i blant ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio'n llawn ar bob maes dysgu. Mae ymarferwyr yn cefnogi lles y plant hyn yn effeithiol ac yn cyfathrebu'n briodol â rhieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod plant yn cael cymorth gwerth chweil gan wasanaethau arbenigol ac yn dilyn cyngor sy'n cael ei roi yn ofalus. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad unrhyw gynllunio ffurfiol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol neu adolygu eu cynnydd yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn yr un cyfle i fanteisio ar holl feysydd darpariaeth y lleoliad. Mae ymarferwyr yn creu ethos cynnes a chroesawgar ac maent yn annog plant i ddatblygu agweddau goddefgar yn effeithiol.

Mae'r gofod dan do yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda, ac mae'n agor allan i ardal ysgogol yn yr awyr agored. Mae'r lleoliad yn darparu ystod dda o adnoddau gwerth chweil sy'n cefnogi dysgu plant yn dda. Er enghraifft, mae plant yn prynu a gwerthu tocynnau trên mewn ardal chwarae rôl gorsaf ddychmygus. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r lle sydd ar gael ar y wal i ddathlu cyflawniadau plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, maent yn dysgu am ffrwythau'r hydref pan fyddant yn casglu mwyar duon mewn parc cyfagos ac am ddefnyddio arian pan fyddant yn ymweld ag archfarchnad leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd a'r unigolyn cofrestredig yn rhannu ymrwymiad i ddarparu profiadau gwerth chweil mewn amgylchedd meithringar ar gyfer y plant. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn y rhan fwyaf o agweddau ar y ddarpariaeth.

Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn dda ac yn sicrhau bod sesiynau yn cael eu cynnal yn esmwyth. Mae hi'n arwain trwy esiampl ac mae wedi sefydlu trefn effeithiol ac ethos cadarnhaol ers ymgymryd â'i rôl. O ganlyniad, mae ymarferwyr a phlant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn rheoli ei hamser yn dda ac yn gosod safonau uchel yn ei harfer ei hun. Mae ganddi weledigaeth gref ar gyfer gwella profiadau ar gyfer plant. Mae'r arweinydd a'r unigolyn cofrestredig yn hysbysu ymarferwyr yn dda am bolisïau'r lleoliad trwy gyfarfodydd staff rheolaidd a phwrpasol. Mae system werthuso ddefnyddiol yn galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu perfformiad a gofyn am hyfforddiant priodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch chwarae a darpariaeth Dechrau'n Deg sy'n cyfarfod ar yr un safle yn effeithiol. Yr unigolyn cofrestredig sy'n arwain hyn, sy'n sicrhau parhad ac yn rhoi sefydlogrwydd. Mae'r lleoliad wedi rhoi

blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar waith yn briodol. Er enghraifft, rhoddir ffocws cryf ar addysgu plant am fyw yn iach ac mae'r arweinydd yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd cynnar yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae pob ymarferwr yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus. Maent yn addasu eu harfer o ddydd i ddydd yn rheolaidd i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer plant. Maent yn nodi cryfderau yn eu harfer yn briodol ac yn magu hyder mewn nodi meysydd i'w datblygu.

Mae arweinwyr y lleoliad yn cynnal arfarniad priodol o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth trwy arsylwadau. Er enghraifft, fe wnaethant nodi bod angen gwneud y gornel lyfrau yn fwy diddorol a deniadol i blant a gweithredu yn unol â hyn trwy drefnu cael benthyg llyfrau o'r llyfrgell. Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn fodlon rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio. Maent wedi gwneud defnydd da o gyngor gan yr awdurdod lleol i ddatblygu eu gweithdrefnau cynllunio. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn cynnwys ymarferwyr yn y broses hunanarfarnu ffurfiol. O ganlyniad, nid yw pob ymarferwr yn ymwybodol o'i rôl o ran ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae arweinwyr y lleoliad yn defnyddio gwybodaeth o'r broses hunanarfarnu i lunio cynllun datblygu priodol sy'n cynnwys targedau addas. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu materion y maent yn dymuno'u gwella yn effeithiol ac yn dyrannu cyllid priodol. Er enghraifft, fe wnaeth y lleoliad flaenoriaethu ariannu adnoddau newydd yn ardal chwarae rôl cornel y cartref i wella ansawdd chwarae dychmygus plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod werth chweil o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.

Mae ymarferwyr yn datblygu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni ac yn rhannu gwybodaeth gyda nhw yn anffurfiol yn rheolaidd. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r berthynas gadarnhaol sydd ganddynt gydag ymarferwyr a'r lefel dda o gyfathrebu rhwng y cartref a'r lleoliad. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymgysylltiad rhieni yn nysgu eu plant.

Ceir partneriaeth werth chweil â chylch chwarae Dechrau'n Deg, sy'n cynorthwyo'r trosglwyddo esmwyth i'r lleoliad.

Mae'r cylch chwarae yn cyfarfod ar safle'r ysgol ac mae ganddo bartneriaeth gref â'r ysgol. Daw plant yn rhan o gymuned yr ysgol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, ac o ganlyniad, maent yn ymgynefino'n gyflym yng ngham nesaf eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'i bartneriaeth adeiladol ag athro cyswllt yr awdurdod lleol a gyda Mudiad Meithrin i wella darpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ddarparu profiadau gwerth chweil yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y plant. Mae'r arweinydd yn defnyddio ymarferwyr yn dda, gan wneud defnydd da o'u harbenigedd a'u profiad. Mae

ymarferwyr yn gwneud y gorau o gyfleoedd i fynychu hyfforddiant ac yn defnyddio gwybodaeth o hyfforddiant yn dda. Er enghraifft, fe wnaeth arweinydd y lleoliad sefydlu sesiwn fywiog sy’n cynnwys cerddoriaeth a symud bob wythnos lle caiff plant ac ymarferwyr ymarfer corff gwerthfawr yn dilyn hyfforddiant diweddar.

Mae arweinydd y lleoliad a’r unigolyn cofrestredig yn sicrhau eu bod yn adolygu’r gyllideb yn fanwl. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad ac yn defnyddio cyllid yn effeithlon i sicrhau bod y grŵp yn parhau’n gynaliadwy.

O ystyried ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |